



The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol
Temple Quay House
2 The Square
Bryste
BS1 6PN

Gwasanaethau 0303 444 5000
Cwsmeriaid: awelymor@planninginspectorate.gov.uk
E-bost:

At yr Ymgeisydd a Cyfoeth Naturiol
Cymru
Trwy e-bost yn unig

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010112

Dyddiad: 15 Tachwedd 2022

Annwyl Syr / Fadam

**Deddf Cynllunio 2008 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio)
2010 – Rheol 17**

**Cais gan Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited am Orchymyn yn Rhoi
Caniatâd Datblygu ar gyfer prosiect Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr**

Ceisiadau am wybodaeth ychwanegol a sylwadau ysgrifenedig

Mae aelodau'r Awdurdod Archwilio (ExA) wedi adolygu'r ymatebion i'w cwestiynau ysgrifenedig cyntaf [PD-009] a'r wybodaeth arall a dderbyniwyd erbyn Terfyn Amser 1. Rydym wedi penderfynu ceisio gwybodaeth ychwanegol gan yr ymgeisydd a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) er mwyn cynorthwyo i ystyried y Datblygiad Arfaethedig. Mae cwestiynau o dan Reol 17 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (EPR) (R17Qs) wedi'u hamlinellu yn Atodiad A. Fe'u cyfeirir at yr Ymgeisydd a CNC yn unig; fodd bynnag, caiff unrhyw barti arall â buddiant neu unigolyn arall sy'n dymuno ymateb wneud hynny.

Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth a geisir yw **Terfyn Amser 3a, 16 Rhagfyr 2022**. Caiff yr Ymgeisydd neu Bartïon â Buddiant sy'n dymuno gwneud sylwadau ar ymatebion i'r cais hwn wneud hynny erbyn **Terfyn Amser 4, 30 Ionawr 2023**.

Yn gywir

Jon Hockley

Aelod Arweiniol yr Awdurdod Archwilio

Cais gan Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer prosiect Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr

Cwestiynau o dan Reol 17 EPR

Dylid anfon ymatebion erbyn **Terfyn Amser 3a: 16 Rhagfyr 2022.**

R17Q	Cwestiwn at sylw:	Cwestiwn
1.1	Yr Ymgeisydd	<p>Y Drwydded Forol (ML) a'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO).</p> <p>Mae'r Diweddariad ar Gyflwyno'r Drwydded Forol a'i Chynnydd [REP1-014] a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd erbyn Terfyn Amser 1 yn datgan:</p> <p><i>“Gall yr ExA ddibynnu ar amodau Trwydded Forol nad ydynt o fewn rheolaeth y DCO (e.e. ar gyfer sicrhau mesurau lliniaru alltraeth) ar yr amod bod yr Ysgrifennydd Gwladol (SoS, sef penderfynwr y DCO) yn hyderus y bydd materion yn derbyn sylw'n briodol o dan gyfundrefn benderfynu ar wahân. Cefnogir y safbwynt hwn gan NRW-MLT” (Para 2)</i></p> <p>Er mwyn helpu sicrhau bod gan yr ExA (a'r SoS) yr hyder hwn, darparwch y dogfennau canlynol neu derfyn amser erbyn pryd y gellir eu darparu a fyddai'n caniatáu digon o amser ar gyfer sylwadau gan bartïon eraill o fewn y broses Archwilio:</p> <p>Templedi i'w defnyddio ar gyfer:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Cynllun Cydweithio i Ymateb i Argyfwng 2. Cynllun Gwrthrychau wedi'u Gollwng <p>Tabl Cynnwys drafft ar gyfer:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Cynllun Wrth Gefn Llygredd Morol 2. Cynllun Goleuo a Marcio 3. Aseiad Risg Claddu Ceblau 4. Datganiad Dulliau Adeiladu 5. Cynllun Rheoli Traffig Llongau <p>Amlinelliad ar gyfer:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Cynllun Rheoli Amgylcheddol Prosiect 2. Cynllun Manyleb a Gosod Ceblau

Cais gan Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer prosiect Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr

Cwestiynau o dan Reol 17 EPR

Dylid anfon ymatebion erbyn **Terfyn Amser 3a: 16 Rhagfyr 2022.**

		<p>3. Cynllun Rheoli Deunyddiau i Atal Erydu</p> <p>4. Protocol Lliniaru Mamaliaid Môr yn benodol i Ordnans Heb Ffrwydro.</p>
1.2	Yr Ymgeisydd, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)	<p>Y ddogfen Egwyddorion Trwydded Forol [REP1-025]</p> <p>Mae'r ddogfen Egwyddorion Trwydded Forol yn darparu tabl sy'n dangos yr egwyddorion arfaethedig y disgwylir iddynt lywio'r Trwyddedau Morol ar gyfer y prosiect. Er y nodir na ddylid ystyried bod y ddogfen hon yn rhagfarnu'r broses Drwyddedu, rhowch eich barn ynglŷn â ph'un a ddylai'r ddogfen hon fod yn ddogfen ardystiedig o fewn Atodlen 13 y DCO.</p>
1.3	Yr Ymgeisydd	<p>Cynlluniau</p> <p>Roedd newidiadau yn Nherfyn Amser 1 wedi dileu Llain 26 o Derfynau arfaethedig y Gorchymyn. Diweddarwch y cynlluniau canlynol i ailadrodd y dilead hwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynllun Safleoedd neu Nodweddion Statudol / Anstatudol neu'r Amgylchedd Hanesyddol [AS-004] • Cynllun Gwaith Stryd a Mynediad [AS-008] • Cynllun Cau Hawliau Tramwy Cyhoeddus Dros Dro [AS-009] • Cynllun Rheoli Cyrff Dŵr mewn Basn Afon [AS-012] • Cynllun Gwrychoedd a Choed a Ddiogelir [AS-013] • Cynllun Tir (Alltraeth) [APP-007]. Yn ogystal, mae'r cynllun hwn yn cyfeirio at Ei Mawrhydi o hyd – diwygiwch hynny os gwelwch yn dda. <p>Darparwch restr o newidiadau i gyd-fynd â phob diwygiad i gynllun ar ôl cyflwyno. Bydd hyn yn helpu'r ExA a Phartïon â Buddiant i ddeall newidiadau i gynlluniau ac fe'i hamlygwyd mewn cyngor a roddwyd o dan a51 Deddf Cynllunio 2008 [PD-002].</p>

Cais gan Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer prosiect Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr

Cwestiynau o dan Reol 17 EPR

Dylid anfon ymatebion erbyn **Terfyn Amser 3a: 16 Rhagfyr 2022.**

1.4	CNC, yr Ymgeisydd	<p>Cais am Drwydded Forol</p> <p>Mae llythyr a gyflwynwyd i'r Archwiliad, wedi'i gyfeirio at yr Ymgeisydd oddi wrth CNC (Cyf ORML2233, dyddiedig 8 Medi 2022) [REP1-080], yn cyfeirio at amryw ymatebion ymgynghori a dderbyniwyd wrth benderfynu ar y cais am Drwydded Forol.</p> <p>At sylw CNC: Cyflwynwch y cyfryw ymatebion i'r Archwiliad, os gwelwch yn dda. At sylw'r Ymgeisydd: Darparwch gopi o'ch ymateb i'r llythyr hwn, os gwelwch yn dda.</p>